**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 18 o Fai 2021.**

**Presennol:** Cynghorydd Sharon Parry – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Einir Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Beryl Salisbury.

**2.** Ethol Cadeirydd 2021 – 2022

Cadeirydd - Gyda Cyng. Celfyn Furlong yn cynnig a Cyng. William Victor Owen yn eilio fe etholwyd Cyng. Dyfed Williams yn Gadeirydd.

**3.** Ethol Is- Gadeirydd 2021- 2022

Is-gadeirydd - Gyda Cyng. Sharon Parry yn cynnig a Cyng. Einir Thomas yn eilio fe etholwyd Cyng. Siân Enfys Jones yn Is-gadeirydd.

Diolchodd Cyng Sharon Parry'r Aelodau a'r Clerc am yr holl gefnogaeth a roddwyd iddi yn ystod ei thymor fel cadeirydd; a diolchwyd iddi hi yn ei thro am gytuno i aros yn y gadair ac am wasanaethu'r Cyngor yn ystod cyfnod heriol iawn.

Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd Cyng. Siân Enfys Jones gan fod Cyng. Dyfed Williams yn cael anawsterau gyda'i 'broad band'

**4. Etholwyd Cynrychiolwyr fel a ganlyn:**

4.1 Un Llais Cymru – Cyng. Celfyn Furlong.
4.2 Aelod Cyllid – Cyng. Dyfed Williams.
4.3 Llywodraethwr Ysgol y Tywyn - Cyng. Dyfed Williams.
4.4 Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan – Cyng. Gordon Owen a William Victor Owen.
4.5 Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned - Cyng. Celfyn Furlong.
4.6 Pencampwr yr Iaith Gymraeg - Cyng. Gwilym O. Jones.

**5. Dogfennau Statudol**

5.1 Rheolau Sefydlog - i'w diweddaru i adlewyrchu'r angen am gyfarfodydd ar lein.
5.2 Rheoliadau Ariannol - dim newid
5.3 Polisi Lwfans Aelodau - diweddariadau bach yn unig
5.4 Asesiad Risg – rodd gwaith i'w wneud ar hwn
5.5 Cod Ymddygiad - dim newid ond roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei adolygu ar y pryd.
5.6 Cofrestr Lletygarwch - cytunwyd ar bolisi newydd. Dim byd i'w gynnwys ar y Gofrestr ar gyfer 2020/21.

**6. Datganiad o ddiddordeb -** dim.



Signature ……………………………………………Chairman

**7. Cofnodion cyfarfod 20.4.2021 -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Sharon Parry.)

**8. Materion yn codi o'r cofnodion**

8.1 Cae Chwarae Playing Field – roedd y rhan fwyaf o'r 'wet pour' a osodwyd rhwng y teils wedi cael eu tynnu gan y plant, roedd hyn wedi creu mwy o waith a chost na'r disgwyl. Cytunodd yr Aelodau i gyfarfod ar y safle am 6.30pm nos Llun 24.5.2021 i drafod hyn ymhellach. Cytunwyd hefyd i ofyn i MacVenture Play Ltd gynnal archwiliad blynyddol ar yr offer.

8.2 Llochesi fws Bus Shelter - Roedd y Cyng Victor Owen a'r Clerc yn edrych ar y rhain.

8.3 Llwybrau – Cafwyd cais gan y Cyngor sir am dorri llwybr 32/010/1, cytunwyd i ofyn i GMS Garden Services dorri'r llwybrau troed cyn gynted â phosibl. Byddai'r clerc yn atgoffa'r Cyngor Sir am y gwaith sydd heb ei wneud ar lwybr troed 15.

8.4 Adolygiad y Pwyllgor Safonau - Cafwyd diweddariad gan y clerc am yr adolygiad a gynhaliwyd gan gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Safonau ar 27 Ebrill 2021. Byddai adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Tynnodd sylw hefyd at gylchlythyr a ddosbarthwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau. Roedd hwn yn cynnwys cysylltiadau â'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Tynnodd sylw hefyd at y trefniadau ar gyfer Caniatadau Arbennig yn ogystal â'r bwriad i gynnal adolygiad ar sampl o Cynghorau Tref a Chymuned. Byddai adroddiad a gasglwyd ar ganfyddiadau'r adolygiadau hyn yn ymddangos mewn rhifyn diweddarach o'r cylchlythyr.

,

8.5 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

**9. Parochial Matters**

9.1 Hysbysfwrdd – Roedd yr hysbysfwrdd newydd wedi cyrraedd, cytunwyd i ymweld â'r safle yn dilyn cyfarfod parthed y cae chwarae nos Lun 24.5.2021 i drafod ei leoliad.

9.2 Parc Solar Traffwll –Cytunwyd i ofyn i Gyngor Cymuned Bryngwran a oeddent am ymuno â'r Cyngor mewn cyfarfod gyda'r datblygwyr.

9.3 Campio Anghyfreithlon - Traeth Cymyran– Cafwyd cwyn gan breswylydd am y campio anghyfreithlon ar Draeth Cymyran a gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned am eu barn ar sut i ddatrys y broblem. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig gosod "Boulders" i atal mynediad i'r twyni. Fe wnaethon nhw hefyd awgrymu fod giât â chlo yn cael ei gosod yng ngheg y lon i atal mynediad i gerbydau diawdurdod. Roedd y Cyngor Cymuned yn ymwybodol iawn o'r materion a godwyd gyda gosod clogfeini i atal gwersyllwyr mewn mannau eraill ar yr ynys ac roeddent yn arbennig o bryderus am roi giât dan glo yno. Cytunwyd i aros am ymateb y Cyngor Sir ar y mater cyn gwneud penderfyniad terfynol.



Signature …………………………………………Chairman

**10. Penderfyniadau Cynllunio - dim**

**11. Ceisiadau Cynllunio**

11.1 **FPL/2021/26 Ysgol Caergeiliog School, Lon Bach, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer codi Crèche newydd - Roedd y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais hwn, roedd dalgylch eang yr ysgol yn golygu bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod i'r ysgol mewn car. Roedd y problemau enfawr gyda thraffig a pharcio yng nghyffiniau'r ysgol ac ar hyd yr A5 drwy'r pentref wedi'i gofnodi'n yn rheolaidd gyda'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir a Heddlu Gogledd Cymru. Byddai'r cynnig i ymestyn y cyfleusterau crèche nid yn unig yn arwain at fwy o draffig, byddai'n creu mwy o broblemau parcio drwy leihau'r maes parcio oeddi ganddynt yn barod.

**12. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Ebrill 2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Arian ar gael 18.5.2021 Cyfrif Cyfredol £25,359.94*, Cyfrif Cadw £3,938.77

* yn ystyried taliadau wedi eu hawdurdodi ond heb eu talu eto.

Dywedodd Cyng. Dyfed Williams fod cyfrifon 2020/21 mewn trefn ond roedd angen diwygio cofnodion mis Mawrth i gofnodi'r holl daliadau a awdurdodwyd.

12.1 Yswiriant – cytunwyd i dderbyn y ddyfynbris a gafwyd gan BHIB Insurance

12.2 Cofrestr Asedau – cytunwyd i dderbyn hwn

**13. Taliadau i'w gwneud :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog Ebrill | £243.61 | BHIB Insurance | £1664.31 |
| Xpose Media | £108 | Vision ICT | £150 |

Cytunwyd i dalu am dorri gwair pan dderbynwyd yr anfoneb

**14. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

14.1 Uno i ddatrys yr argyfwng ail gartrefi. Gwahoddiad i gyfarfod zoom gan Gyngor Tref Nefyn.

14.2 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**15. Adroddiadau Aelodau**
Mynegodd y Cyng Furlong bryderon am nifer y ceir sy'n parcio ar yr A5 i ollwng a chodi plant o'r ysgol. Cytunwyd y dylid gwneud cais am linellau melyn dwbl yno.

**16. Cyfarfod Nesaf 15 Mehefin 2021**

Signature …………………………………………Chairman